



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales



Ugain Mlynedd
Twenty Years

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025-26

Medi 2026



Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales



Ugain Mlynedd
Twenty Years

Adroddiad Blynyddol

Safonau'r Gymraeg 2025-26

yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a
ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Cynnwys

Rhagair	5
Cefndir	6
Ein rôl	7
Ein huchelgais	7
Ein hegwyddorion	8
Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg	9
Ein perfformiad yn 2025-26	11
Safonau cyflenwi gwasanaeth	12
Safonau llunio polisiau	15
Safonau gweithredu	17

Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn sy'n manylu ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Yn OGCC, rydym yn cefnogi'r Gymraeg yn llwyr ac wedi ymrwymo i gefnogi siaradwyr Cymraeg ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Unwaith eto, dangosodd ein hymchwil ymwybyddiaeth genedlaethol eleni fod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol na'r aelodau cyffredin o'r cyhoedd yng Nghymru o wybod amdanom ni, yn ogystal ag o fod â hyder yn ein swyddfa.

Mae ein gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac rydym bob amser yn pwysleisio na fydd cysylltu â ni yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi o ran pa mor gyflym y byddwn yn ystyried cwyn. Rydym hefyd yn parhau i weld cynnydd yng nghyfran ein staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg.

Er gwaethaf hyn, rydym yn dal i weld mai ychydig iawn o bobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaeth yn y Gymraeg. Dim ond ychydig iawn o bobl sy'n gofyn i ni gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg yn unig neu i ddefnyddio

rhywfaint o Gymraeg wrth siarad â ni. Hefyd, mae defnydd o'n gwefan Gymraeg yn parhau i fod yn isel.

Rydym wedi parhau i weithio i wrthdroi'r duedd hon. Rydym yn postio'n rheolaidd am ein gwasanaethau ar gyfryngau cymdeithasol ac yn cymryd camau i wella ein gwefan. Gwnaethom fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd, gyda thua 1600 o ymwelwyr yn ymweld â'n stondin.

Byddwn yn parhau i annog pobl i ddefnyddio ein gwasanaeth yn y Gymraeg a chefnogi'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn unol â'n Safonau'r Gymraeg.

Ym mis Ebrill 2026, lansiom ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2026-29, lle rydym yn ymrwymo'n benodol i gynyddu nifer y rhyngweithiadau â'n gwasanaeth yn y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at y gwaith hwn.

Michelle Morris

Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru

Medi 2026

Cefndir



Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf.



Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.



Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.



Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Ein huchelgais



Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan aiff pethau o chwith.



Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella.



Mae ymddiriedaeth yn llywodraeth leol Cymru i gyflawni'r safonau uchaf o ymddygiad.



Rydym yn parhau i fod yn llais dylanwadol a pharchus o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Ein hegwyddorion

Rydym yn **annibynnol**. Rydym yn cael ein hariannu gan Senedd Cymru ac yn atebol iddi.

Rydym yn **ddiduedd ac yn deg**. Nid ydym yn cymryd ochrau. Rydym yn archwilio'r ffeithiau sydd o'n blaenau ac yn dod i'n casgliadau diduedd ein hunain.

Rydym yn **agored i bawb sydd ein hangen**. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau mynediad di-dor i bawb.

Rydym yn **canolbwyntio ar bobl**. Rydym yn deall bod pobl yn dod atom ar adegau anodd, a bod prosesau cwyno yn gallu teimlo'n frawychus. Beth bynnag fo'r canlyniad, dylai pawb sy'n rhyngweithio â ni deimlo eu bod yn cael eu parchu, eu clywed a'u deall.

Ein dyletswyddau o ran y Gymraeg

O dan ein Deddfwriaeth, mae'n rhaid i ni gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau). Rydym yn croesawu defnydd o'r Gymraeg, ac rydym wedi ymrwymo i nodau'r Safonau ac i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

[Ewch i'n Safonau'r Gymraeg, ein hysbysiad cydymffurfio a'n Polisi Iaith Gymraeg.](#)

Cyfrifoldebau

Ein Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r swyddfa. Mae ein Cyfarwyddwr Gweithredol – Adnoddau Corfforaethol yn sicrhau bod rheolaeth weithredol yn cydymffurfio â holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau arfer da'r Safonau.

Ein Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a chyflwyno adroddiadau'n gyffredinol. Gellir cysylltu â nhw i drafod yr adroddiad hwn.

Mae pob aelod o staff yn derbyn gwybodaeth am ein dyletswyddau a'n hymrwymadau o dan y Safonau a'n Polisi Iaith Gymraeg ac yn cydymffurfio ac yn cyfrannu fel y bo'n berthnasol ac yn briodol.

Sut y gwnaethom baratoi'r adroddiad hwn

Wrth ddatblygu'r adroddiad hwn, gwnaethom ddefnyddio canllawiau a chyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cymeradwywyd yr adroddiad terfynol gan ein Tîm Rheoli ar 12 Awst 2026.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Rydym yn asesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg bob dwy flynedd, yn unol â'r trefniadau monitro ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u henwi yn Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg Rhif 2.

Cyflwynwyd ein hasesiad cydymffurfiaeth ddiwethaf yn 14 Ionawr 2026. Gwnaethom adolygu ein dogfennau a'n harferion mewnol, gan

adrodd bron yn gyffredinol am lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r Safonau. Roedd y meysydd lle nad oedd y lefel o gydymffurfiaeth mor uchel yn ymwneud ag

- achosion ynysig lle nad oedd fersiwn Saesneg o ddogfen neu ffurflen yn cynnwys datganiad clir bod y ffurflen hefyd ar gael yn y Gymraeg.
- rhai achosion lle na chafodd ein Hasesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb eu cwblhau mor brydlon ag y dylent fod wedi'u gwneud.

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i hyrwyddo'r Gymraeg o ddifri. Rydym yn comisiynu arolwg yn rheolaidd i wirio faint o bobl yng Nghymru sy'n gwybod am ein gwasanaethau. I lywio ein gwaith hyrwyddo, rydym yn sicrhau y gallwn ddadansoddi canlyniadau'r arolwg hwnnw yn ôl 'gallu i siarad Cymraeg'. Dangosodd canlyniadau diweddaraf yr arolwg hwn (Ionawr 2026) fod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol nag aelodau cyffredin o'r cyhoedd yng Nghymru o wybod amdanom ni, yn ogystal ag o fod â hyder yn ein swyddfa.

Mae ein gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac rydym bob amser yn pwysleisio na fydd cysylltu â ni yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi o ran pa mor gyflym y byddwn yn ystyried cwyn. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i weld mai ychydig iawn o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn y Gymraeg.

Gwyddom gan ein staff gwaith achos, er bod llawer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dewis defnyddio ein gwasanaeth yn Saesneg, eu bod yn aml yn defnyddio'r Gymraeg yn fwy anffurfiol wrth gyfathrebu â ni am eu hachos. Eleni dechreuom gofnodi nifer y bobl sy'n defnyddio rhywfaint o Gymraeg wrth siarad â ni. Fodd bynnag, mae'r nifer hwn yn parhau i fod yn isel.

Rydym yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaeth yn y Gymraeg. Eleni, roedd gennym stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol unwaith eto.

[Ewch i ragor o wybodaeth am sut i gwyno wrthym ni am ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.](#)

Ein perfformiad yn 2025-26



Safonau cyflenwi gwasanaeth

Defnydd o'n gwasanaethau

Mynegodd defnyddwyr gwasanaeth y dewis o gyfathrebu â ni yn y Gymraeg mewn llai nag 1% o'n cwynion yn 2025-26.

Mae ein staff yn cael cymorth ar sut i wneud eu llofnod e-bost ac atebion allan o'r swyddfa yn ddwyieithog ac rydym yn darparu baner i'w chynnwys yn eu llofnod os gallant gyfathrebu'n ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Gohebiaeth (Safonau 1- 7)

Rydym yn datgan ym mhob e-bost a throedyn llythyr ein bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi yn y ffordd y byddwn yn ystyried cwyn. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson drwy gynnwys y datganiad yn ein templedi e-bost a gohebiaeth safonol ar ein system rheoli gwaith achosion ac unrhyw negeseuon e-bost a anfonir o'n system e-bost 'Outlook'.

Os bydd unrhyw un yn ysgrifennu atom yn y Gymraeg, byddwn yn ateb yn awtomatig yn y Gymraeg.

Ffôn (Safonau 8-22)

Atebir pob galwad ffôn yn ddwyieithog, gyda'r cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf. Mae ein gwasanaeth ateb galwadau awtomataidd hefyd ar gael yn y Gymraeg ac mae gan alwyr y dewis o siarad yn y Gymraeg. Y dewis Gymraeg sydd bob amser yn gyntaf.

Yn ystod 2025-26, dewisodd 128 o alwyr i'n swyddfa'r dewis o siarad yn y Gymraeg.

Mae gennym 3 aelod o staff sydd ar gael i ateb y galwadau cychwynnol yn y Gymraeg ac maent yn gweithio ar rota i sicrhau bod digon o staff ar gael.

Mae staff wedi cael cyfarwyddyd i newid negeseuon peiriant ateb personol i fod yn ddwyieithog. Mae staff wedi cael cyfarwyddiadau a hyfforddiant ar sut i wneud hyn.

Yn ystod 2025-26, yn ein Timau Derbyn, Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus a Chod Ymddygiad roedd gennym 14 aelod o staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae pobl sy'n cysylltu â'n swyddfa ac sy'n dymuno i'w cwyn gael ei thrin yn y Gymraeg yn cael swyddog achos sy'n siarad y Gymraeg i gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Ar adegau pan fydd pobl yn ffonio rhif uniongyrchol ynghylch cwyn lle nad yw'r person sy'n cael ei ffonio yn siarad Cymraeg, gallwn drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg i ddelio â'r ymholiad.

Gellir trosglwyddo pobl sy'n cysylltu â rhifau llinell uniongyrchol ar gyfer ymholiadau eraill, fel gwybodaeth am gais am swydd neu dendr, i rywun a all siarad â nhw yn y Gymraeg, cyn belled ag y gall rhywun sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

Cyfarfodydd (Safonau 24 - 32)

Lle nad ydym wedi cael cysylltiad ac wedi sefydlu sut y byddai person eisiau cynnal cyfarfod, rydym yn canfod pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod.

Bydd pob cyfarfod mwy a drefnir gennym y cynnwys cyhoeddusrwydd, cyhoeddiadau a phapurau cyfarfod dwyieithog a 'Chymraeg yn gyntaf' ac rydym yn gwirio gyda'r cyfranogwyr a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, rhag ofn bod angen gwasanaethau cyfieithu.

Eleni, gwnaethom drefnu tair sesiwn ymgysylltu ar-lein, a oedd ar agor i'r cyhoedd, fel rhan o'n hymgyngoriad ar ein Cynllun Strategol newydd.

Cyn y digwyddiadau hyn, gwnaethom ni wirio a fyddai'r cyfranogwyr eisiau cyfrannu yn y Gymraeg. Gwnaethom ni hefyd wahodd y cyfranogwyr ar y diwrnod i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Cyhoeddusrwydd (Safonau 33–72)

Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog, ac rydym bob amser yn diweddarau'r fersiwn Gymraeg o'r wefan yn gyntaf. Rydym yn ceisio sicrhau bod dolenni uniongyrchol bob amser o'r tudalennau Saesneg i'r tudalennau Cymraeg cyfatebol, ac i'r gwrthwyneb.

Rydym yn sicrhau bod y cynnwys Cymraeg bob amser yn ymddangos yn gyntaf yn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, gnaethom bostio 79 gwaith ar Facebook, 72 gwaith ar LinkedIn a 64 gwaith ar Instagram.

Ar hyn o bryd, dim ond ychydig iawn o ymwelwyr sy'n ymweld â'n swyddfa, ond mae gennym y cyfleusterau hyn:

- mae ein cyfarchiad drws yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- rydym yn arddangos arwydd yn ein derbynfa sy'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r holl staff yn gallu cyfarch pobl yn Gymraeg.

Mae bathodynau ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac sy'n gallu siarad ag ymwelwyr yn y Gymraeg.

Caffael (Safonau 72–76)

Mae ein Polisi Caffael yn nodi ein bod ni'n croesawu ceisiadau am dendrau yn y Gymraeg ac na fyddant y cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Yn ystod 2025-26, gwnaethom hysbysebu dau dendr. Ni chyflwynodd yr un o'r cyflenwyr gais tendr yn y Gymraeg.

Hyrwyddo gwasanaethau (Safonau 77 - 80)

Mae ein gwasanaethau cwynion yn gwbl ddwyieithog.

Cynigir ein hyfforddiant Safonau Cwynion yn y Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Mae pob fersiwn Saesneg o'n hadroddiadau a chyhoeddiadau eraill yn cynnwys datganiad bod y ddogfen hefyd ar gael yn y Gymraeg. Roedd hyn ac eithrio ychydig o achosion ynysig eleni lle nad oedd fersiwn Saesneg o ddogfen ffurflen yn cynnwys y datganiad hwnnw.

Safonau llunio polisïau

Polisïau a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (Safonau 84–86)

Rydym yn gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau posibl penderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, mae gennym y trefniadau canlynol ar waith:

- [Polisi'r Iaith Gymraeg](#) – sy'n nodi ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau o ran cydymffurfio â'r polisi gwneud safonau. Adolygwyd y polisi yn ystod y flwyddyn flaenorol, mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg.
- [Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb \(WL & EIA\)](#) – sy'n cynnwys asesiad ar wahân o'r effaith ar y Gymraeg ac sy'n anelu at:

- › rhagweld neu nodi canlyniadau polisi ar unigolion neu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth/ gweithwyr a'u defnydd o'r iaith Gymraeg;
- › sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu dileu neu eu lleihau;
- › gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.
- Gweithdrefn Rheoli Polisi – sy'n sicrhau bod ein holl bolisïau'n gyfredol, yn gyson o ran eu cyflwyniad, wedi'u cyhoeddi'n briodol ac yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Ein Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am sicrhau bod ein Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb yn cael eu gweithredu'n gywir.

Cynhaliwyd 6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o bolisiâu neu brosiectau yn 2025-26. Lle nodwyd risg fach o effaith negyddol mewn tri achos, rhoddwyd mesurau lliniaru priodol ar waith.

Y tu hwnt i hynny, roedd yr holl asesiadau'n tynnu sylw at effaith gadarnhaol neu niwtral ar y Gymraeg, gan adlewyrchu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Ymgynghoriadau (Safonau 87 - 89)

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom ddau ymgynghoriad a oedd ar agor i'r cyhoedd – ar ein hymchwiliad arfaethedig ar ei liwt ei hun i ymateb i adroddiadau am ddiffyg atgyweirio, lleithder a llwydni gan denantiaid sy'n agored i niwed; ac ar ein Cynllun Strategol arfaethedig 2026-29.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriadau yn ddwyieithog. Roedd y dogfennau ymgynghori'n cynnwys trosolwg o'r wybodaeth berthnasol a allai lywio gwerthusiad o'r effaith bosibl ar y Gymraeg.

Comisiynu ymchwil (Safonau 91–93)

Nid ydym wedi comisiynu na chynnal unrhyw ymchwil er mwyn gwneud penderfyniad polisi yn ystod 2025-26.

Safonau gweithredu

Polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 94)

Mae gennym Bolisi Iaith Gymraeg ar waith, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan y Safonau. Mae'r polisi'n cynnwys adran sy'n egluro ein dull o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae ar gael ar Yr Hwb (ein mewnrwyd) a'n gwefan gyhoeddus. [Ewch i'n gwefan](#).

Dogfennau cyflogaeth (Safonau 95 - 100)

Gofynnwn i bob aelod staff newydd sy'n ymuno â ni ddatgan a hoffent unrhyw ohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth, hyfforddiant, amcanion perfformiad neu gynllunio gyrfa yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn ystod 2025-26, ymunodd 12 o gydweithwyr newydd â'n sefydliad. Roedd gan 2 o'r rolau hyn y Gymraeg fel hanfodol yn Disgrifiad Swydd. Mae'r Gymraeg yn ddymunol ar bob disgrifiad swydd lle nad yw wedi'i nodi fel hanfodol/gorfodol.

Yn y ffurflen gais, gofynnwn i ymgeiswyr a hoffent gael dogfennaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth bosibl yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Polisiâu cyflogaeth (Safonau 101 - 107)

Mae ein holl bolisiâu adnoddau dynol sy'n ymwneud ag ymddygiad, iechyd a diogelwch, buddion yn y gweithle, rheoli perfformiad, absenoldeb, amodau gwaith a phatrymau gwaith ar gael yn y Gymraeg.

Gweithdrefnau cwynion staff a disgyblu staff (Safonau 108 - 115)

Gellir cynnal ein trefniadau ar gyfer gweithdrefnau cwyno a disgyblu yn y Gymraeg. Ni chawsom unrhyw gwynion yn y Gymraeg, ac ni chymerom unrhyw gamau disgyblu yn y Gymraeg yn ystod 2025-26.

Technoleg i hwyluso defnydd staff o'r Gymraeg (Safonau 116 - 122)

Mae gan bob aelod o staff fynediad at apiau gramadeg y Gymraeg a gwirio sillafu.

Mae pob aelod o staff wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i newid gosodiadau iaith ar gyfer y canlynol:

- Microsoft EDGE
- Microsoft Outlook Prawf ddarllen iaith
- Microsoft Windows
- Microsoft Office
- HWB (Hafan / Tudalen newyddion / Tudalen Polisi).

Mae gennym safle ar ein Mewnrwyd sy'n cynnwys gwybodaeth am ein proses gyfieithu, mynediad at hyfforddiant iaith Gymraeg, ein dyletswyddau o dan y safonau a gwybodaeth berthnasol arall.

Sgiliau Cymraeg y staff (Safon 123)

Rydym yn cynnal arolwg blynyddol o'n staff ac yn casglu gwybodaeth am lefel sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o'r arolwg hwnnw.

Yn 2025-26, dywedodd 12% o'n staff mai'r Gymraeg oedd eu prif iaith – yr un gyfran â'r llynedd.

Mae cyfran y bobl a siaradodd y Gymraeg yn weddol dda neu'n rhugl wedi gwella eto o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol:

- siarad: 30% (o'i gymharu â 28%)
- darllen: 28% (o'i gymharu â 27%)
- ysgrifennu: 25% (o'i gymharu â 26%)
- deall: 29% (o'i gymharu â 28%).

Er ein bod yn cadw'r data hwn, ac wedi'i dadansoddi, oherwydd y nifer fach o staff ar lefelau penodol neu mewn rhai tîmau, nid yw'n ymarferol i ni rannu data sy'n ymwneud â siaradwyr Cymraeg ar wahanol raddau neu mewn gwahanol dimau heb y perygl o ddatgelu pwy y'r unigolion a datgelu data personol.

Cefnogaeth hyfforddi a chyfathrebu (Safonau 124 - 131)

Mae sylw i Safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn ein rhaglen sefydlu (Modiwl 2 – Cyflwyniad i'r Sefydliad). Mae'r holl ddeunydd cynefino ar gael yn Gymraeg ond, hyd yma, ni fu unrhyw alwad i'w gyflwyno yn Gymraeg.

Rydym yn annog staff i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys yn ystod oriau gwaith, ac rydym yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno parhau i wella eu Cymraeg i wneud hynny. Gwnaethom gefnogi 2 aelod o staff i ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyfweliadau. Mae hyfforddiant ar-lein gan ein darparwr hyfforddiant, iHASCO, ar gael gyda naratif yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant lechyd a Diogelwch. Nid ydym wedi darparu hyfforddiant ar yr elfennau eraill sydd wedi'u cynnwys o dan safon 124 (yn Saesneg neu'n Gymraeg) yn ystod 2025-26.

Recriwtio (Safonau 132 - 136)

Mae ein Polisi Recriwtio a Dethol yn cadarnhau na fyddwn yn cychwyn y weithdrefn recriwtio nes bod yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wedi'i asesu a'i gofnodi. Rydym yn sefydlu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o'r gwaith o ddatblygu disgrifiadau swydd unigol a manylebau person, yn seiliedig ar brinder sgiliau ac anghenion o fewn y sefydliad. Rydym yn manylu ar yr angen am sgiliau iaith Gymraeg yn y disgrifiad swydd a'r hysbyseb, cyn i'r swydd wag fynd yn fyw.

Rydym yn hysbysebu ein holl swyddi gwag yn ddwyieithog ac mae'r hysbysebion yn nodi y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Mae pob dogfen a gyhoeddir fel rhan o'r pecyn recriwtio yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Mae ein ffurflenni recriwtio yn rhoi cyfle i ymgeiswyr nodi a hoffent i'r broses recriwtio gael ei chynnal yn y Gymraeg.

Rydym bob amser yn ceisio cyfathrebu â'r ymgeisydd am swydd yn eu dewis iaith. Mae hyn yn cynnwys y 'llythyr cynnig'. Rydym hefyd yn sicrhau bod galwadau i hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwneud yn unol â iaith o ddewis yr ymgeisydd.

Arwyddion (Safonau 138–139)

Gan ein bod yn rhentu ein swyddfeydd, nid oes gennym reolaeth dros arwyddion allanol parhaol ein swyddfa. Fodd bynnag, mae ein holl arwyddion dros dro a parhaol sy'n newydd, a osodwyd ers cyflwyno'r Safonau, yn cydymffurfio'n llawn.



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203